Adolygiad Ebrill 2020

**PRIFYSGOL BANGOR**
**ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB**

Dylid cynnwys asesiad effaith cydraddoldeb fel rhan hanfodol o'r broses o ddatblygu polisiau newydd, adolygu polisiau a gwneud penderfyniadau strategol a gweithrediadol[1] er mwyn sicrhau y dileeir unrhyw anghydraddoldeb a gwahaniaethu neu y rhoddir sylw iddynt cyn gynted â phosib.

Mae'r rhestr wirio hon yn rhan o ddull y brifysgol o ymdrin ag asesu effaith cydraddoldeb a dylid ei defnyddio i asesu effaith y polisi ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

---

**GRWPIAU CYDRADDOLDEB:**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Oedran** | **Anabledd** | **Ailddynodi gender** | **Beichiogrwydd a mamolaeth** | **Yr iaith Gymraeg** |
| **Hil** | **Crefydd a chred** | **Rhyw** | **Cyfeiriadedd rhywiol** | **Math o gontract** |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | | | | |

Sylwer - Mae'n ymarfer da ystyried materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg a math o gontract er bod y meysydd hynny dan ddeddfwriaeth wahanol i Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

**Enw neu deitl y polisi: -**

Gweithdrefn 06: Trefn Terfynu Astudiaethau

[1] Er y defnyddir y gair POLISI yn y templed hwn, dylid ei newid i STRATEGAETH/PENDERFYNIAD GWEITHREDIADOL fel bo'n briodol

| **Gwybodaeth am y polisi:** | |
|---|---|
| Beth yw pwrpas y polisi? | Mae'r Weithdrefn hon yn amlinellu'r seiliau a'r broses lle bydd y Brifysgol yn ystyried terfynu astudiaethau myfyriwr. |
| Pwy sy'n gyfrifol am y polisi? | Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio. |
| Sut y mae'r polisi'n gysylltiedig â blaenoriaethau strategol y brifysgol? | Blaenoriaeth Strategol 1: "Addysg Ardderchog" |
| Pa grwpiau sy'n rhanddeiliaid yn y polisi? | Myfyrwyr.<br>Staff. |
| A fydd y polisi yn cael ei ddefnyddio yn yr un modd ym mhob maes yn y brifysgol? | Bydd. |
| Nodwch y grwpiau y mae'r polisi'n berthnasol iddynt. | Myfyrwyr. |

| **A roddwyd ystyriaeth i'r materion canlynol? (un o ofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus)** | |
|---|---|
| A allai unrhyw elfennau o'r polisi fod yn wahaniaethol, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol? | Pwrpas y weithdrefn yw sicrhau bod proses deg, dryloyw a chyson ar waith i derfynu astudiaethau myfyriwr, sy'n benderfyniad difrifol iawn i'r Brifysgol ei wneud. |
| A ellid defnyddio'r polisi i hyrwyddo amrywiaeth a chyfle cyfartal? | Bwriad y weithdrefn yw sicrhau bod myfyrwyr yn cael cyfle cyfartal i gael mynediad at gyngor ac arweiniad sy'n arwain at y penderfyniad hwn, ynghyd â chyfle cyfartal i herio unrhyw benderfyniad ac i gael eu cynrychioli. Bydd amgylchiadau lliniarol hefyd yn cael eu hystyried. |
| A ellid defnyddio'r polisi i hyrwyddo perthynas dda rhwng pobl? | Gellid, ymhlith y gymuned myfyrwyr, gan ddangos triniaeth gyfartal i bawb. |

| **Monitro** | |
|---|---|
| Pa ddata meintiol neu ansoddol sydd ar gael yn gefn i'r polisi? | Rhaid i ysgolion ddogfennu cynnydd myfyrwyr a thrafodaethau cysylltiedig. Mae cyfarfodydd Paneli Ymchwilio hefyd wedi'u dogfennu. Gellir dadansoddi'r rhain ar gyfer tueddiadau. |

| **Ymgynghori** | |
|---|---|
| Pa grwpiau yr ymgynghorwyd â hwy wrth ddrafftio’r polisi? | Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd sy'n gyfrifol am gymeradwyo a diwygio'r weithdrefn hon. |
| Sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad? | Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda'r rhanddeiliaid allweddol bob blwyddyn a chedwir cofnod ohonynt. |
| Sut mae ymgynghori wedi cyfrannu at ddatblygu'r polisi? | Mae ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol wedi gwella proses y weithdrefn hon. |

| **Gweithredu** | |
|---|---|
| Sut y gweithredir y polisi? | Mae ysgolion a cholegau yn cyfeirio at y weithdrefn hon wrth ystyried cynnydd myfyrwyr.<br><br>Bydd y weithdrefn ar gael ar-lein yn www.bangor.ac.uk a hefyd ar ffurf brintiedig ar gais. |
| Pwy fydd yn gyfrifol am weithredu’r polisi? | Mae'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio'n gyfrifol am sicrhau bod gweithrediad y weithdrefn yn unol â'r hyn a nodir yn y ddogfen. Goruchwylir hyn gan Bwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd. |

Adolygiad Ebrill 2020

| **Monitro** | |
|---|---|
| Sut caiff y polisi ei fonitro er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd ei nod? | Mae monitro parhaus ac adroddiadau i Bwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd yn rhan o galendr blynyddol y brifysgol. |
| Pwy fydd yn gyfrifol am fonitro'r polisi? | Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd. |
| Sut caiff y polisi ei fonitro er mwyn sicrhau na wnaiff roi grwpiau penodol dan anfantais? | Caiff unrhyw faterion cydraddoldeb sy'n codi eu harchwilio a rhaid gwneud unrhyw addasiadau rhesymol. |
| Pryd caiff y polisi ei adolygu i ganfod a yw'n cyrraedd ei nod a'i amcanion? | Mae'r weithdrefn hon ar gylch adolygu 3 blynedd, ond caiff ei phrofi bob tro y caiff ei defnyddio. |

| **Goblygiadau o ran adnoddau** | |
|---|---|
| Hyfforddiant – a oes unrhyw ofynion hyfforddi'n gysylltiedig â datblygu, gweithredu neu fonitro'r polisi hwn? | |
| Beth yw'r goblygiadau eraill o ran adnoddau (yn cynnwys amser a baich gwaith) o weithredu'r polisi hwn? | Gweinyddiaeth yn dilyn unrhyw derfynu astudiaethau a chysylltu â'r Swyddfa Gartref ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol. |

| **ARGYMHELLION A DYDDIAD ADOLYGU** | |
|---|---|
| 3 blynedd | |
| **ASESIAD EFFAITH – LLOFNOD A DYDDIAD** | |
| Gwenan Hine | 7 Ebrill 2020 |